
# Newyddion Bethlehem



www.gwe-bethlehem.org Gwaelod-y-garth Ionawr 2013



## Carolwyr Gobaith

Dau o wynebau cyfarwydd Bethlehem fel roedden nhw'n ymddangos ar y gyfres 'Carolau Gobaith' ar S4C. (chwith) Catrin Dafydd gyda Rhys Meirion a (dde) Rhodri Gomer Davies gydag Alun Rhys Jenkins. Fel y gwelwch yn y rhifyn hwn, cafwyd perfformiad byw gan ein sêr lleol yn ystod Cyngerdd y 3 Tenor a Chôr y Mochyn Du – gyda'r elw at yr elusen am eleni – Ambiwlans Awyr Cymru.



***Hefyd yn y rhifyn hwn:***

- ***prysurdeb cyfnod y Nadolig***
- ***gweithgaredd i ddod***
- ***diaconiaid newydd***
- ***newyddion***





***(Uchod)*** Un o uchafbwyntiau'r naw llith a charol oedd côr o ferched ifanc yr eglwys – 17 ohonyn nhw, y cyfan yn gyn blant yr eglwys! ***(Chwith)*** Yr holl angylion wrth eu gwaith yn nrama Nadolig y plant.
(Dde) Mair a Joseph 2012.
Mae llun o'r holl gast ar dudalen 2.







**(uchod) Y Llwyfan yn llawn ar gyfer cân olaf drama'r 'Dolig.**

**(chwith) Does dim drama heb blismon!**

**(isod) Gwasanaeth aelodau Bethlehem yng Nghartref Preswyl Duffryn Ffrwd, Nantgarw.**



## Prysurdeb

*Mae'n siwr eich bod chi gyd wedi cymryd rhan eisoes yn y gwaith elusennol sy'n digwydd ym Methlehem.*

- *Mae cofnod o Gyngerdd y 3 Tenor yn y rhifyn hwn – capel llawn a hwb aruthrol i'r elusen am eleni!*
- *Er i'r glaw fod yn ein herbyn ar noson y canu carolau, bu mintai o gwmpas yn canu o ddrws i ddrws ar ôl y naw llith a charol. Fel gwobr gysur i un ferch fach effro ddaeth i'r drws ar fraich ei thad, ychwanegwyd "Heno, Heno" at y carolau cyn ffarwelio.*
- *Ar ddiwedd pob gwasanaeth bore Sul cymun, mae'r stondin gacennau'n codi symiau cyson ac, erbyn hyn, mae pob cyfraniad tuag at y te a choffi hefyd yn chwyddo'r coffrau. Gan i'r Cymun fod yn yr hwyr yn Rhagfyr, mins peis a 'mulled wine' di-alcohol oedd ar gael – eto at yr elusen.*
- *Ar fore Sul, Mawrth 3ydd, cynhelir Gwasanaeth Gwyl Ddewi gan yr Ysgol Sul. Yna, dewch i gael "Blas o Gymru" ar ôl yr oedfa - Bara a Chaws Cymru gyda chacen gri a bara brith gyda choffi a the. Pris tocynnau yn £3 i oedolion a £1 i blant.*
- *Mis Mai (dyddiad i'w bennu) Cyngerdd gyda chôr gwahoddiedig a phlant Ysgol Y Gwaelod. Bydd pob teulu'n derbyn 2 docyn i'w prynu/gwerthu.*

## *CROESO i GRUFFUDD!*

Llongyfarchiadau i Holly ac Alun Evans, Pentre'r Eglwys, ar enedigaeth Gruffudd Llywelyn ar Ragfyr 7fed,

### *Cydymdeimlwn â:*

~ **Gareth a Sian Thomas,** Llandaf - Gareth wedi colli ei fam (Mrs Carrie Thomas, Y Barri) cyn y Nadolig.

~ **Rhiannon ac R. Alun Evans** – Rhiannon wedi colli ei chefnder yn Sir Aberteifi.

~ **Eirlys Lamb a'r teulu** – Eirlys wedi colli ei modryb yn ardal Llangrannog.

GAIR GAN Y GWEINIDOG

# NOBL IAWN!

Fis Medi llynedd, fis wedi Eisteddfod Bro Morgannwg, fe sefydlodd Leighton Andrews gwango dan gadeiryddiaeth Roy Noble i ystyried dyfodol yr Eisteddfod Genedlaethol. Mae'r cwango yma i adrodd yn ôl i'r Gweinidog (L. A. nid y fi!) fis Medi eleni, fis wedi Eisteddfod Dinbych. Tydw i ddim yn deall yr amserlen, gan y bydd y rhan fwyaf o'r Adroddiad wedi ei gwblhau cyn bod aelodau'r cwango, ac arno rai na fu ar gyfyl Eisteddfod erioed, yn cael profiad o faes y Brifwyl.

Mae'n ymddangos fod y gweithgor yn awyddus i roi ystyriaeth i leoliad yr Eisteddfod ac yn ffafrio dau leoliad sefydlog – un yn y de, un yn y gogledd. O brofiad blynyddoedd o steddfota rwy'n gryf o'r farn mai camgymeriad fyddai hynny.

Arbed arian? Tybed. Tua 20% o wariant yr Ŵyl sy'n mynd i'r 'maes.' Fe fyddai adeiladu dwy safle barhaol yn gofyn am wariant mawr i gwrdd â disgwyliadau'r mynychwyr ac un o'r ddwy safle yn wag am yn ail flwyddyn. Fydde chi am fynd yn ôl i'r un ddau le flwyddyn ar ôl blwyddyn?

Ond yn fwy sylfaenol na hynny, mae'r Eisteddfod mewn sefyllfa unigryw i gynnig perchnogaeth o'r Ŵyl i holl ardaloedd Cymru yn eu tro. Nid mater o godi arian at sioe yw hi ond chwistrellu Cymreictod i wythiennau bröydd a chymunedau'r ffin yn ogystal â'r cadarnleoedd. Ac, o edrych ar ffigyrau sensws 2011, ble mae'r cadarn leoedd hynny erbyn hyn?

Tystiolaeth pobl Bro Morgannwg oedd mai un o gymwynasau mawr y brifwyl yno oedd asio cymuned a chreu ymwybyddiaeth o fro. Dyna waddol Eisteddfod 2012.

Rwy'n edrych ymlaen at awgrymiadau eraill y cwango nobl. Tyde nhw ddim yn trafod y 'rheol Gymraeg' o gwbl. Gobeithio y bydd ganddyn nhw syniadau ffres i ychwanegu at y rhestr faith o Adroddiadau diweddar ar yr Eisteddfod a gomisiynwyd gan Lywodraeth Cymru, dau gan Terry Stevens, Adroddiad Grant Thornton…

R Alun

**Cofiwch am:**
**Ein gwasanaeth fore Gŵyl Ddewi –** 9.30 ar y bore Gwener, **Mawrth 1af.**
**Sioe Ffasiwn Kathy Gittins – Mawrth 14**, Clwb Golff Radur – ar y cyd at elusen Bethlehem a Minny Street.

**"Gwlad, Gwlad!"** - Oes ganddoch chi atgof, stori neu hoff ddyfyniad i'w roi ar wal y festri dan y testun "Gwlad, gwlad!" ar gyfer Gŵyl Ddewi? **Chwefror 24** ydy'r dyddiad olaf i chi roi eich pin ar bapur maint A4.

**"Ann"** – detholiad o'r sioe gerdd am yr emynyddes Ann Griffiths fydd yn cael ei gyflwyno gan gôr Bethlehem ar Sul y Blodau, **Mawrth 24**. Ymunwch â'r cantorion!

**Cerddi Dafydd** – mae copïau o gyfrol cerddi'r diweddar Ddr Dafydd Huws ar werth yn y cwrdd, â'r elw at Gymorth Cristnogol.

# SULIAU 2013

**Mawrth**
**3** Gwasanaeth Gwyl Ddewi
**10** Y Parchg. Ddr. R.Alun Evans
**17** Y Parchg. Cynwil Williams
**24** Y Parchg. Ddr. R. Alun Evans
**31** (Sul y Pasg) Y Parchg. Jeff Williams

**Ebrill**
**7** Y Parchg. Aled Edwards
**14** Y Parchg.Ddr. R. Alun Evans
**21** Y Parchg. Hywel Wyn Richards
**28** Y Parchg. Ddr. R. Alun Evans

**Mai**
**5** Oedfa Ardal - Radur
**12** Y Parchg. Ddr. R.Alun Evans
**19** Oedfa Cymorth Cristnogol
**26** Dim trefniant eto

**Mehefin**
**2** Y Parchg. Aled Edwards
**9** Y Parchg. Ddr. R. Alun Evans
**16** Y Parchg. Dewi Myrddin Hughes
**23** Y Parchg. Ddr. R. Alun Evans
**30** Y Parchg. Derwyn Morris Jones

**Gorffennaf**
**7** Y Parchg. Jeff Williams
**14** Y Parchg. Ddr. R. Alun Evans
**21** Sul y Cyfundeb
**28** Y Parchg. Ddr. R. Alun Evans

**Awst**
**4** Cymun yn Efail Isaf
**11** Oedfa dan ofal aelodau Bethlehem
**18** Oedfa yn Efail Isaf
**25** Oedfa dan ofal aelodau Bethlehem

**Medi**
**1** Dim Trefniant eto
**8** Y Parchg.Ddr. R.Alun Evans
**15** Y Parchg. Allan Pickard
**22** Y Parchg.Ddr.R. Alun Evans
**29** Y Parchg. John Gwilym Jones

**Hydref**
**6** Y Parchg. Ieuan Davies
**13** Y Parchg. Ddr. R. Alun Evans
**20** Oedfa Ardal
**27** Y Parchg. Ddr. R. Alun Evans

**Tachwedd**
**3** Cwrdd Diolchgarwch
**10** Y Parchg. Ddr. R. Alun Evans
**17** Dim trefniant eto
**24** Y Parchg.Ddr.R. Alun Evans

**Rhagfyr**
**2** Dim trefniant eto
**8** Ymarfer i'r Ysgol Sul yn y bore - Oedfa Gymun am 5yh - Y Gweinidog
**15** Ymweld â Chartre Henoed - Oedfa Naw Llith a Charol am 4.30yh
**22** Gwasanaeth Nadolig y Plant
**25** Gwasanaeth Bore Nadolig (yr Aelodau)
**29** Y Parchg. Dafydd Owen


## Cyfeiriadau:

**Gweinidog: Y Parchedig Ddr R. Alun Evans,**
***Ffôn:*** 02920 520 854
***e-bost:*** ralun.evans@virgin.net
**Ysgrifennydd: Rhodri-Gwynn Jones,**
**Ffôn:** 029 20 89 00 39
***e-bost:*** rhodrigj@tiscali.co.uk


# Y CWRDD MERCHED

Â'r Gwanwyn rownd y gornel, cawn gyfle i edrych nôl dros gyfarfodydd y Cwrdd Merched ers i ni fod allan yn Llancarfan.

Ym mis Hydref, daeth rhai o gyn aelodau Cwmni'r Gadwyn i gyflwyno rhaglen a gyflwynwyd yn wreiddiol yn y Babell Len yn Eisteddfod y Fro eleni. Gwaith y Prifardd J.M.Edwards ac yn arbennig y casgliad "Cerddi'r Fro" oedd testun y cyflwyniad.

Ein siaradwraig ym mis Tachwedd oedd Rhiannon, gwraig y Gweinidog. A dyna oedd profiad o ddawn dweud disglair! Testun ei sgwrs oedd "Lle i enaid gael llonydd". Cawsom ein tywys hyd lwybrau ei phlentyndod a thrwy hynny cael ein cyflwyno i hanes a diwylliant yr ardal. Prynhawn bythgofiadwy.

Mwynhad pur oedd ein prynhawn o Frethyn Cartre ym mis Rhagfyr. Gofynnwyd i aelodau gyfrannu unrhyw atgofion, darlleniadau neu waith llaw yn gysylltiedig â'r Nadolig.'Doedd dim prinder cyfranwyr ac yn eu plith roedd Marian, Rhian, Elen, Menna, Nia ac Eirlys.

Yn y flwyddyn newydd daeth Beca Lewis Jones, Addysgwr Hawliau Dynol, atom a chawsom brofiadau hwylus dros ben yn ei chwmni. Ei nod oedd ein bod yn dod i ddeall y cysyniad o angen yn well. Fe fuon ni'n gweithio mewn grwpiau ac fel unigolion er mwyn ceisio profi a theimlo rhai anghenion. Bu tipyn o drafod a dadlau ar sut i achub ein hunain mewn cwch ar y môr ac fe ddaeth arbenigrwydd Judith, fel fferyllydd, yn handi iawn!

Ym mis Chwefror, fe ddaeth Alun atom yn goron ar weithgareddau'r tymor. Ei bwnc eleni oedd Rhuban Glas David Ellis. Fe gawson ni hanes David Ellis ei hun a hefyd hanes enillwyr y Rhuban ar hyd y blynyddoedd. 'Roedd hwyl ar gael wrth i ni geisio adnabod lleisiau rhai o'r enillwyr. Marian Evans gafodd y marciau ucha' a hi a wisgodd y Rhuban Glas!

Unwaith yn rhagor fe sylweddolom mor ffodus ydym i gael Alun a'i holl dalentau yn Weinidog arnom.

Bydd ein cyfarfod nesa' ar Fawrth 12eg a chofiwch am y Trip i Lys yr Esgob, Abergwili ar Fai 7fed.

**Cath Edwards**

***Anfonwn ein cofion at:***

*Vi Jones, Pentyrch, sydd heb fod yn rhy hwylus yn ddiweddar. Adferiad buan i ti Vi!*



**Plygain Ionawr 2013**


Dyma rai o'r nifer  o bartïon ac unigolion fu'n rhan o'r Plygain ym Methlehem eleni. (Uchod) Disgyblion Ysgol Gynradd Gwaelod-y-Garth, sy'n ymwelwyr blynyddol bellach, dan arweiniad Tania (a chwith isod) y parti  o ferched ifanc y capel a welwyd hefyd yn y naw llith a charol.  Prin fod angen cyflwyno'r unawdwyr, triawdwyr a phedwarawdwyr i selogion Y Plygain!













Gill Griffiths, Llywydd Cenedlaethol Merched y Wawr, yn annerch y plant ac yn sôn am ei thaith i weld gwaith Cymorth Cristnogol yn Ethiopia. Ar ôl ei sgwrs yn y cwrdd, bu Gill yn yr Ysgol Sul yn parhau ei hymgom gyda'r plant am y dasg o geisio sicrhau dŵr glân i drigolion y wlad.







**£2500**

**i'r elusen**

Drwy gymorth y Tri Thenor, Côr y Mochyn Du, Catrin Dafydd, Delwyn Sion a Rhodri Gomer Davies mae'r ymgyrch i gasglu at yr elusen eleni wedi cael cychwyn da iawn!



**Mae'n diolch yn fawr iawn i bawb fu'n gyfrifol am drefnu'r noson hynod lwyddiannus hon. Roedd Catrin a Rhodri wedi bod yn rhan o gyfres "Carolau Gobaith" ar S4C ac fe gawson ni berfformiad am yr eildro gan y ddau – Catrin gyda Delwyn Sion, awdur "Un Seren" a Rhodri gydag Alun Rhys Jenkins. Ymunodd Côr Y Mochyn Du â Rhys Meirion i ganu "Anfonaf Angel" – cân thema yr Ambiwlans Awyr, ein helusen am eleni. (Dde isod) gwelir Marian Ifans, arweinydd Côr Y Mochyn Du ar y noson, yn derbyn tusw o flodau gan Rhodri Gomer.**






# DERBYN PEDWAR O DDIACONIAID NEWYDD





**A dyma nhw! (*uchod o'r chwith)* Y gweinidog yn croesawu Eirlys Davies, Pentyrch; yna Huw Lloyd, Radur a Rhian Huws Ffwrnes Blwm yn cael eu cyflwyno i'r gynulleidfa, ac yna R Alun yn estyn croeso i Geraint Huws, Ffwrnes Blwm.**



**Chwith:** Eirlys, wedi ei geni a'i magu yn Llundain (a phwl bach yn sir Aberteifi yn ystod yr Ail Ryfel Byd) ond wedi hen fwrw iddi yn yr ardal hon wedi iddi hi a Cerith setlo ym Mhentyrch.
**Dde:** Huw, yn wreiddiol o wlad y Scarlets ond wedi treulio talp mawr o'i yrfa yn Lloegr cyn iddo e, a'i briod, June ymddeol a dod i fyw i Radur.





**Chwith:** Geraint, yr ieuengaf o'r pedwar ac un o blant yr eglwys, bellach yn athro yng Nghaerdydd. (Bydd rhaid i'n hanesydd ddweud wrthyn ni pryd, os o gwbl, yr etholwyd gwr ifanc a'i fam yn ddiaconaid yr un pryd o'r blaen! Ac wele'i fam **(ar y Dde)** Rhian Huws, Ffwrnes Blwm, yn wreiddiol o Ddyffryn Clwyd, ond wedi treulio'i bywyd priodasol â'r diweddar Ddr Dafydd Huws, yma ym Methlehem.



*Cyfarfu'r Diaconiaid am y tro cyntaf eleni ar y 4ydd o Chwefror.*
*Cafwyd trafodaethau ar nifer o faterion, ond dyma'r pethau fydd o ddiddordeb cyffredinol i'r aelodau:-*

- *sefydlwyd gweithgor i gynnal trafodaeth agoriadol a swyddogion Bethel, Caerffili, i gynnig ffordd ymlaen i'r ddwy eglwys yn dilyn cyhoeddiad y Gweinidog y bydd yn ymddeol ar ddiwedd 2014.*
- *bwriedir gofyn i'r aelodau ym mis Gorffennaf i ddewis elusen leol newydd i'w chefnogi am y flwyddyn nesaf (o fis Medi 2013 ymlaen)*
- *mae'n fwriad i ddiweddaru gwefan y capel*
- *mae'r Ymddiriedolwyr yn ystyried gwelliannau posibl o safbwynt mynediad i'r anabl i'r capel a'r festri*

*Bydd cyfarfod nesaf y Diaconiaid ar y 10fed o Fehefin.*